*This document is available in English* **Eitem ar yr Agenda 13**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **17/06/2019** |
| Swyddog Arweiniol | **Kevin Roberts,<br>Prif Swyddog Tân Cynorthwyol** |
| Swyddog Cyswllt | **Gavin Roberts (01745 535 264)** |
| Pwnc | **Cwynion, datgeliadau er lles y cyhoedd, a gwerthfawrogiadau** |

**PWRPAS**

1 Rhoi gwybod i'r aelodau am nifer a mathau'r cwynion, y datgeliadau er lles y cyhoedd a'r negeseuon o werthfawrogiad a ddaeth i'r Gwasanaeth rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019, a nifer y cwynion a ddatryswyd yn ystod yr un cyfnod.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Yn ystod 2018/19, daeth 30 o gwynion i'r Gwasanaeth (cafodd naw ohonynt eu cadarnhau), a daeth 240 o negeseuon o werthfawrogiad.

3 O'r deg cwyn am ymddygiad, un gafodd ei chadarnhau.

4 O'r naw cwyn am bolisi a gweithdrefn, pedair gafodd eu cadarnhau. Roedd tair o'r rheini yn ymwneud â llifoleuadau a oedd newydd gael eu gosod mewn dwy orsaf dân ac a oedd wedi effeithio ar drigolion lleol ar y dechrau.

5 O'r naw cwyn am yrru, tair gafodd eu cadarnhau. Roedd dwy o'r rheini yn ymwneud â delio â hawliadau yswiriant.

6 Am yr ail flwyddyn yn ddilynol, ni chafwyd unrhyw gŵyn am faterion yn ymwneud â'r Gymraeg.

7 Ni ddaeth unrhyw ddatgeliadau cymwys i law yn ystod y flwyddyn dan drefniadau 'chwythu'r chwiban' yn y Gwasanaeth.

8 Fe wnaeth y negeseuon o werthfawrogiad am ddigwyddiadau gweithredol ac ymarferion gynyddu'n fawr, gyda'r rhan fwyaf o'r 174 a ddaeth i law yn deillio o ymateb y Gwasanaeth i danau yn yr awyr agored yn ystod yr haf.

9 Da yw nodi hefyd fod nifer y negeseuon o werthfawrogiad am waith mewn partneriaeth naw yn fwy o gymharu â'r cyfartaledd dros dair blynedd.

## ARGYMHELLIAD

10 Bod yr Aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad.

## SYLWADAU'R PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO

11 Nid yw'r Aelodau wedi ystyried yr adroddiad hwn o'r blaen.

## CEFNDIR

12 Mae cwynion a ddaw i'r Gwasanaeth gan sefydliadau, grwpiau neu aelodau o'r cyhoedd yn agored i reolaeth ffurfiol a gweithdrefnau monitro. Mae hyn yn hybu cysondeb wrth ymdrin â chwynion ac yn cefnogi dysgu a gwelliant parhaus.

13 Ystyr 'cwynion adroddadwy' yw cwynion sy'n dod i sylw'r Gwasanaeth am safon y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu neu am yr hyn mae staff, neu unrhyw un arall sy'n gweithredu ar ran y Gwasanaeth, yn ei wneud neu heb ei wneud.

14 Nid yw cyfanswm nifer y cwynion yn cynnwys cwynion a ddaeth gan aelodau o'r cyhoedd yn pryderu am y ddarpariaeth diogelwch tân ar safleoedd lle byddai Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn awdurdod gorfodi neu'n awdurdod ymgynghorol ar gyfer deddfwriaeth a rheoliadau diogelwch sy'n berthnasol i'r safleoedd hynny.

15 Mae Deddf Datgelu Er Lles y Cyhoedd 1998, fel y'i diwygiwyd, yn darparu amddiffyniad i weithwyr cyflogedig sy'n mynegi pryderon dilys (chwythu'r chwiban) er lles y cyhoedd ynglŷn â materion penodol. Mae unrhyw "ddatgeliadau cymwys" yn destun gweithdrefnau ffurfiol ar gyfer ymchwilio.

16 Mae'r negeseuon o werthfawrogiad a ddaw i'r Gwasanaeth hefyd yn agored i weithdrefn reoli safonol oherwydd gall y rhain fod yn arwydd o arfer dda a gallan nhw sicrhau bod llwyddiannau neu weithredoedd aelodau o'r staff yn cael eu cydnabod.

**GWYBODAETH**

17 Mae'r tablau isod yn nodi nifer y cwynion a'r negeseuon o werthfawrogiad yn y blynyddoedd ariannol diweddar.

**Tabl 1.** Cwynion adroddadwy a ddaeth i law, yr ymchwiliwyd iddynt ac a gafodd eu datrys:

| **Categorïau cwynion** | **2015/16** | **2016/17** | **2017/18** | **Cyfartaledd 3 blynedd*** | **2018/19** | **O gymharu â'r cyfartaledd 3 blynedd** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Y Gymraeg | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | ←→ | 0 |
| Polisi a gweithdrefn | 3 | 6 | 7 | 5 | 9 | ↑ | +4 |
| Gyrru | 8 | 3 | 4 | 5 | 9 | ↑ | +4 |
| Gweithgareddau ar yr ochr weithredol | 3 | 7 | 4 | 5 | 1 | ↓ | -4 |
| Ymddygiad | 6 | 8 | 13 | 9 | 10 | ↑ | +1 |
| Diogelwch cymunedol/busnesau | 5 | 5 | 3 | 4 | 1 | ↓ | -3 |
| **Cyfanswm** | **25** | **30** | **31** | **29** | **30** | ↑ | **+1** |

*Y nifer cyfartalog a ddaeth i law yn y 3 blynedd flaenorol, wedi'i dalgrynnu i'r rhif cyfan agosaf.

**Tabl 2.** Cwynion adroddadwy a gafodd eu cadarnhau yn ystod y flwyddyn (rhai ohonynt wedi cael eu cyflwyno yn gyntaf mewn blynyddoedd ariannol blaenorol).

| **Categorïau cwynion** | **2015/16** | **2016/17** | **2017/18** | **Cyfartaledd 3 blynedd*** | **2018/19** | **O gymharu â'r cyfartaledd 3 blynedd** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Y Gymraeg | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | ←→ | 0 |
| Polisi a gweithdrefn | 0 | 3 | 1 | 1 | 4 | ↑ | **+3** |
| Gyrru | 2 | 2 | 1 | 2 | 3 | ↑ | **+1** |
| Gweithgareddau ar y ochr weithredol | 1 | 1 | 3 | 2 | 1 | ↓ | **-1** |
| Ymddygiad | 2 | 0 | 6 | 3 | 1 | ↓ | **-2** |
| Diogelwch cymunedol/busnesau | 2 | 2 | 2 | 2 | 0 | ↓ | **-2** |
| | **7** | **9** | **13** | **10** | **9** | ↓ | **-1** |

*Y nifer cyfartalog a ddaeth i law yn y 3 blynedd flaenorol, wedi'i dalgrynnu i'r rhif cyfan agosaf.

**Tabl 3 Datgeliadau cymwys**

| **Categorïau datgeliad** | **2018/19** |
|---|---|
| Trosedd | 0 |
| Camweinyddu cyfiawnder | 0 |
| Gweithred yn achosi risg i iechyd a diogelwch | 0 |
| Gweithred yn achosi niwed i'r amgylchedd | 0 |
| Torri unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol arall | 0 |
| Celu unrhyw un o'r uchod | 0 |
| **Cyfanswm** | **0** |

**Tabl 4.** Negeseuon o werthfawrogiad a ddaeth i law drwy lythyr, cerdyn, e-bost, cyfryngau cymdeithasol ac yn bersonol:

| **Categorïau gwerthfawrogiad** | **2015/16** | **2016/17** | **2017/18** | **Cyfartaledd 3 blynedd*** | **2018/19** | **O gymharu â'r cyfartaledd 3 blynedd** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Mentrau a digwyddiadau diogelwch cymunedol, gan gynnwys ymweliadau â GTAGC a gan GTAGC. | 25 | 26 | 27 | 26 | 16 | ↓ | -10 |
| Archwiliadau diogelwch yn y cartref, ymyriadau diogelwch yn y cartref (gan gynnwys gan y Tîm Cymorth Cymunedol) | 12 | 19 | 20 | 17 | 12 | ↓ | -5 |
| Gweithio mewn partneriaeth (gan gynnwys y Ffenics a Lleihau Llosgi Bwriadol) | 11 | 1 | 7 | 6 | 15 | ↑ | +9 |
| Cymorth elusennol (gan gynnwys rhoddion nosweithiau tân gwyllt cymunedol) | 9 | 34 | 8 | 17 | 8 | ↓ | -9 |
| Digwyddiadau ac ymarferion ar yr ochr weithredol | 29 | 37 | 37 | 34 | 174 | ↑ | +140 |
| Ymddygiad | 6 | 12 | 16 | 11 | 15 | ↑ | +4 |
| **Cyfanswm** | **92** | **129** | **115** | **112** | **240** | ↑ | **+128** |

* Y nifer cyfartalog a ddaeth i law yn y 3 blynedd flaenorol, wedi'i dalgrynnu i'r rhif cyfan agosaf.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r adroddiad hwn yn cysylltu ag amcan llesiant tymor hir GTAGC, sef "Hwyluso gwasanaethau tân ac achub sydd o ansawdd uchel, yn ymatebol ac wedi'u hintegreiddio'n well fel bod gweithgareddau ataliol ac ymateb brys yn gallu parhau i fod ar gael pryd a lle mae eu hangen, a hynny'n fforddiadwy, yn deg ac ar sail risg." |
| Cyllideb | Gallai cwynion a datgeliadau er lles y cyhoedd arwain at weithredoedd sydd â goblygiadau cyllidebol. Ar y llaw arall, gall camau gwella fod yn gymorth i leihau risg ariannol. |
| Cyfreithiol | Cafodd yr holl ddeddfwriaeth berthnasol ei hystyried wrth ddelio â'r cwynion neu'r datgeliadau er lles y cyhoedd a ddaeth i law. |
| Staffio | Ystyrir nad yw hyn yn berthnasol. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Rhoddir ystyriaeth i'r holl nodweddion gwarchodedig, gan ymdrin â negeseuon o werthfawrogiad / cwynion yn ddwyieithog neu yn unol â dymuniad yr unigolyn. |
| Risgiau | Mae rheolaeth effeithiol ar gwynion a datgeliadau er lles y cyhoedd yn gallu bod yn gymorth i leihau risg cyfreithiol ac ariannol i'r Awdurdod. |